Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Twm o'r Nant
Ffordd Rhyl
Dinbych
Denbighshire
LL16 3DP

17/12/2024

Annwyl Dafydd Davies

**Ymweliad Interim:** Rhagfyr 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Twm o'r Nant yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dwy flaenoriaeth yng nghynllun gwella'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau, gan gynnwys ymweliadau ar y cyd â'r pennaeth
- siarad â disgyblion
- cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion, gan gynnwys gydag arweinwyr
- craffu ar ddogfennaeth

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol tuag at gyflawni gofynion y blaenoriaethau hyn, ac maent yn cydnabod bod ychydig o agweddau y gallent wella ymhellach.

**Ffocws yr ymweliad**

**Parhau i ddatblygu medrau siarad Cymraeg disgyblion**

- Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf sy'n hybu disgyblion i wneud defnydd medrus o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd ysgol.
- Mae staff yn angerddol am yr iaith Gymraeg ac yn manteisio ar bob cyfle i feithrin a gloywi medrau iaith lafar Cymraeg disgyblion. Gyda'i gilydd, mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg a bod yn amlieithog yn llwyddiannus, sy'n eu datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.
- Mae mwyafrif y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau Cymraeg llafar gwan. O oedran cynnar, mae staff yn cyflwyno dulliau caffael iaith

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

pwrpasol i ddisgyblion gan ddefnyddio ystum ac ail-adrodd patrymau iaith yn gyson sy'n eu galluogi ddysgu'r iaith Gymraeg yn gyflym. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i fod yn gyfranwyr llawn yn y sesiynau dysgu mewn cyfnod byr. Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, mae ganddynt afael gadarn ar batrymau iaith ac yn cymhwyso'r Gymraeg yn effeithiol wrth drafod pynciau a chyflwyno gwybodaeth.

- Mae arweinwyr a staff wedi gweithio'n agos â staff ysgolion lleol i rannu arbenigedd a syniadau, er enghraifft wrth ddatblygu rôl y 'Dreigiau Iaith'. Trwy ymgymryd yn ddiymdroi â chyfrifoldeb i ddatblygu cyflwyniad digidol i rieni am eu gwaith i godi proffil y Gymraeg, mae'r 'Dreigiau Iaith' yn meithrin medrau arwain gwerthfawr wrth gefnogi staff i ddatblygu medrau siarad Cymraeg disgyblion.
- Ar draws yr ysgol, gwna staff ddefnydd pwrpasol o ystod dda o arddangosfeydd llythrennedd i gefnogi'r dysgu. Mae'r adnoddau defnyddiol hyn yn galluogi disgyblion i gaffael patrymau iaith gwerthfawr yn gyson i gyfoethogi eu medrau llafar.
- Mae staff yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus i ddatblygu gemau buarth pwrpasol i feithrin medrau siarad Cymraeg disgyblion ymhellach. Yn ogystal, defnyddir ystod dda o ddulliau gwobrwyo yn effeithiol i ddathlu ymdrech ac agweddau cadarnhaol disgyblion at ddefnyddio'r Gymraeg yn eu dysgu a'u chwarae.
- Mae staff yn trefnu gweithgareddau pwrpasol i godi ymwybyddiaeth rhieni am ffyrdd i gefnogi eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mynd a thegan Mistar Urdd adref er mwyn ymarfer eu Cymraeg gyda'u teuluoedd. Mae hyn yn hyrwyddo medrau siarad Cymraeg rhwng rhieni a'u plant yn effeithiol.

**Datblygu sgiliau rhifedd a rhesymu'r dysgwyr gan sicrhau cyfleoedd i ail ymweld a cymhwyso sgiliau mathemateg newydd**

- Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemategol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau rhifedd cynnar yn llwyddiannus. Dros amser, maent yn adeiladu ar eu medrau ac, erbyn brig yr ysgol, maent yn cyfrifo'n hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol.
- Ar y cyfan, mae athrawon yn fodelau rôl fathemategol bwrpasol ac yn meddu ar wybodaeth bynciol briodol. Maent yn defnyddio ystod ddefnyddiol o ddulliau cwestiynu sydd yn adalw dysgu blaenorol a chadarnhau dealltwriaeth disgyblion yn dda.
- Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae athrawon yn gosod pôs i ddisgyblion ar gychwyn sesiynau dysgu sydd yn sbarduno trafodaethau ac yn hybu datblygiad eu medrau rhesymu a datrys problemau yn llwyddiannus
- Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu ystod o adnoddau priodol sy'n cefnogi'r dysgu'n effeithiol ac mae mwyafrif y disgyblion yn dewis adnoddau priodol yn annibynnol.
- Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn gydlynus ac yn hybu datblygiad cyson ym medrau rhifedd disgyblion dros amser. Mae staff yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am gynnydd disgyblion ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i gynllunio camau dysgu nesaf y disgyblion.

- Darperir ychydig o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm ac mewn sefyllfaoedd ymarferol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn datblygu medrau cyllidebu gwerthfawr wrth ystyried pa archfarchnadoedd sydd yn cynnig y gwerth gorau am arian. Ar adegau, nid yw cyd-destun ychydig iawn o'r profiadau hyn bob tro'n gweddu'n naturiol gyda'r medrau sydd yn cael eu cymhwyso.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder. Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6632134

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol